



## Croeso i'r pwnc a'r Adran

Croeso i'r cwrs Troseddeg, sef astudiaeth wyddonol o drosedd a throseddwyd. Mae hwn yn gwrs newydd i Ysgol Glan Clwyd felly rydym yn gyffrous ac yn edrych ymlaen i gychwyn gyda chi.

### Y Fanyleb:

<https://www.cbac.co.uk/media/53jhjqda/lefel-3-diploma-cymhwysol-troseddeg-manyleb-o-2015.pdf>

### Blwyddyn 12

#### Uned 1 - Newid Ymwybyddiaeth o Drosedd

Edrych ar gwahanol fathau o droseddau, sut mae gwahanol droseddau yn cael eu canfod, effaith y cyfryngau ac ystadegau troseddau ynghyd â pham na roddir gwybod am rai troseddau penodol.

#### Uned 2 - Damcaniaethau Troseddegol

Byddwn yn astudio damcaniaethau seicolegol a chymdeithasol er mwyn esbonio pam mae pobl yn troseddu.

### Blwyddyn 13

#### Uned 3 - O Leoliad y Drosedd i'r Llys

Dod i ddeall y system cyfiawnder troseddol dwy archwilio gwahanol dechnegau a ddefnyddir mewn archwiliadau troseddol megis ffrensig, plismona a'r system famwrol. Byddwch yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer archwilio gwybodaeth.

#### Uned 4 - Trosedd a Chosb

Cymhwyso dealltwriaeth o ddamcaniaethau troseddegol a'r broses o ddwyn rhywun o flaen llys er mwyn gwerthuso pa mor effeithiol yw rheolaeth gymdeithasol wrth roi polisi cyfiawnder troseddol ar waith. Byddwch yn ystyried effeithiolrwydd gwahanol strategaethau o geisio lleihau trosedd gan gynnwys dedfrydau gwarchodol ac effaith trefniadau cymunedol.

### Sut mae'r cwrs yn cael ei asesu?

Bydd uned 1 a 3 yn cael eu hasesu drwy asesiad 'dan reolaeth mewnol. Bydd angen cwblhau 6 tasg o fewn 8 awr o dan amodau arholiad yn y dosbarth.

Bydd uned 2 a 4 yn cael eu hasesu drwy arholiad allanol. Bydd dwy arholiad 1 awr 30 munud yr un a bydd angen ateb 3 cwestiwn (25 marc yr un).

## Gwaith Cychwynnol

Cyfle i chi wella eich gwybodaeth am fathau o drosedd:

- Coler Wen – Gwylwch y ffilm 'Rogue Trader' er mwyn dod i wybod stori Nick Leeson
- Casineb – gwylwch rai o'r rhaglenni dogfen o'r gyfres BBC ganlynol

<https://www.bbc.co.uk/programmes/p05r3vw3/episodes/player>

- Anrhydedd – ymchwiliwch beth ddigwyddodd i Shafiea Ahmed
- Darlennwch am hanes y Cymro, Timothy Evans, a gafodd ei gyhuddo ar gam

<https://www.southwales.ac.uk/research/research-news/criminologist-explores-life-trial-and-execution-timothy-evans/>

- Beth yw eich barn chi am drychineb Hillsborough? A oedd trosedd wedi ei chyflawni? Pa fath o drosedd?

<https://www.youtube.com/watch?v=bjdDyp22RI8>

## Gosod gwaith ymchwil

### Ymchwiliwch i'r ymgyrchoedd dros newid canlynol:

- Newid polisi neu'r gyfraith – Cyfraith Sarah, Cyfraith Clare neu Brexit (Pleidleisio i adael)
- Newid blaenoriaethau neu gyllido – Dysgu i Fyw (Plentyn Rhyfel), "No Knives, Better Lives" Yr Alban, Ymgyrch ALLFIE
- Newid ymwybyddiaeth neu agwedd – Atal Troseddau Casineb DU, #MeToo, Ymwybyddiaeth Syndrom Downs
- Ystyriwch pa mor effeithiol oedd yr ymgyrchoedd uchod wrth gyflawni eu dibenion?
- Beth oedd rôl y cyfryngau (media) fel rhan o'r ymgyrchoedd hyn?

## Rhestr ddarllen sy'n cwmpasu'r pwnc

- Carole A. Henderson Troseddeg Lefel 3, CBAC
- Rob Webb ac Annie Townend Criminology Book One, CBAC
- Muncie J a McLaughlin E (2001) The Problem of Crime Sage Publications Ltd
- The Oxford Handbook of Criminology. Oxford University Press.
- Hobbs D (1995) Bad Business: Professional Crime in Modern Britain OUP

## Gwaith Ail-ymgyfarwyddo efo sgiliau/gwybodaeth TGAU

Ni fyddwch wedi astudio Troseddeg o'r blaen. Y sgiliau pwysig i ganolbwyntio arnynt yw llythrennedd, archwilio, ymchwilio, gwerthuso a dadansoddi. Ceisiwch sicrhau eich bod yn darllen/gwrando ar y newyddion diweddaraf ac unrhyw raglenni dogfen perthnasol yn Y Gymraeg.